# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 05-08 (p1) : 20 Chwefror 2008**

### 1.Cyflwyniad

1.1 Mae Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (UWIC) yn cefnogi'r farn eang a gyflwynwyd gan Addysg Uwch Cymru (AUC) yn ei ymateb i'r adolygiad hwn. Mae'r cyflwyniad canlynol yn ceisio amlygu'r cyfraniad penodol a wna UWIC o ran ymgysylltu'n strategol â busnesau yng Nghymru a thu hwnt, a'i effaith ar yr economi leol a rhanbarthol.

### 2.UWIC

2.1 Mae Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (UWIC) yn sefydliad Addysg Uwch hyderus, modern a metropolitan gyda hanes balch sy'n deillio o'r 19eg ganrif. Ers hynny, mae'r sefydliad wedi tyfu ym mhob agwedd, gan arddangos portffolio academaidd cynhwysfawr, cyflawni aelodaeth o Brifysgol Cymru, pwerau dyfarnu graddau a addysgwyd a sail ymchwil sy'n ehangu sy'n llywio'r cwricwlwm ac yn ysgogi rhagoriaeth menter. Mae gan UWIC hanes a thraddodiad helaeth ym maes addysg a hyfforddiant proffesiynol a galwedigaethol, ac mae'n parhau i ddarparu cyfleoedd addysg a hyfforddiant hyblyg o'r ansawdd gorau ac sy'n cydnabod realiti'r economi fyd-eang. Mae UWIC yn ymrwymedig i feithrin amgylchedd dysgu gwirioneddol ryngwladol drwy broses o integreiddio dimensiynau rhyngwladol, rhyng-ddiwylliannol a byd-eang. Mae UWIC yn gwneud cyfraniadau sylweddol i'r gymuned leol ac mae'n rhan annatod ohoni; gan ddarparu amrywiaeth o hyfforddiant pwrpasol, cyfleoedd iechyd a ffitrwydd a digwyddiadau diwylliannol sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth yn UWIC a'r gymuned yr ydym yn ffynnu ynddi. Mae UWIC yn ymrwymedig i ganolbwyntio ar fyfyrwyr, datblygu gwasanaethau sydd o fudd i gymunedau lleol a chymunedau ehangach, a chefnogi datblygiad Prifysgol Cymru.

2.2 Cydnabyddir UWIC am natur broffesiynol ei darpariaeth a bydd yn sicrhau bod y traddodiad hwn yn cael ei gynnal; gan weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys cyflogwyr, i ddatblygu darpariaeth sy'n canolbwyntio ar fusnesau a darpariaeth hyblyg sy'n gwella cyflogadwyedd graddedigion. Mae UWIC wedi ffurfioli'r uchelgais hon drwy nifer o fentrau, yn fwyaf diweddar drwy ffurfio Fforwm Datblygu Academaidd sy'n dwyn ynghyd Gynghorau Sgiliau Sector a chyflogwyr i lywio'r broses o ddatblygu'r ddarpariaeth. Caerdydd yw un o'r dinasoedd sy'n tyfu gyflymaf yn Ewrop ac ystyrir bod yr ymgysylltiad hwn â rhanddeiliaid yn hollbwysig i sicrhau bod UWIC yn datblygu gweithlu proffesiynol sy'n ofynnol yn y diwydiannau twristiaeth, lletygarwch, hamdden, rheoli, gwyddorau bywyd, creadigol, y cyfryngau a chwaraeon lleol sy'n datblygu'n gyflym.

2.3 Mae UWIC wedi gweithio gyda mwy na 3,000 o fusnesau bach a chanolig yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae hyn wedi creu craidd sylweddol o brofiad yn UWIC o ran diwallu anghenion y sector hwn o'r economi. Yn yr un modd, ar lefel fwy strategol, gall gwaith grwpiau megis y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Dylunio a Datblygu Cynnyrch a'r Ganolfan Diwydiant Bwyd roi cipolwg ar y materion strategol a gweithredol ehangach a wynebir gan fusnesau bach a chanolig na welir eu gwell yn un man arall yn y DU. Mae gan weithgareddau grwpiau o'r fath ddimensiwn rhyngwladol pwysig sydd hefyd yn gweithredu fel ffordd o ddenu'r wybodaeth a'r arfer diweddaraf yn ôl i Gymru.

### 3.UWIC fel cyflogwr a defnyddiwr nwyddau a gwasanaethau

3.1 Caiff UWIC effaith economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sylweddol ar y rhanbarth. Yn economaidd, mae tri phrif ffactor sy'n pennu ein heffaith; staff, myfyrwyr a phrynu. Mae gwariant blynyddol UWIC yn fwy na £70 miliwn, ac mae effaith ein 1,100 aelod o staff a mwy na 10,000 o fyfyrwyr ar yr economi leol yn agos at £100 miliwn y flwyddyn i gyd. Bydd ein bwriad i gynnal twf cynaliadwy, cynyddu ein proffil ymchwil a buddsoddi yn yr ystad yn cynyddu'r effaith hon dros y blynyddoedd i ddod - mae buddsoddiad o fwy na £50m ar y gweill ar gyfer cyflunio ac adfywio'r ystad i gynnal statws strategol UWIC fel prifysgol ddeinamig, fodern, fetropolitan.

### 4.UWIC fel darparwr pobl fedrus

4.1 Cydnabyddir bod UWIC yn arloesi o ran datblygu cysylltiadau â Chynghorau Sgiliau Sector a thrwyddynt hwy, ddatblygu ymyriadau hyfforddiant i ddiwallu anghenion cyflogwyr. Mae UWIC wedi sicrhau bod cynnwys Cynghorau Sgiliau Sector mewn partneriaethau ystyriol yn un o nodau allweddol ei Thrydedd Strategaeth Genhadaeth ac mae wedi sefydlu Gweithgor Cyngor Sgiliau Sector i gydlynu gweithgareddau gyda chronfa ysgogi er mwyn i academyddion ymgysylltu â Chynghorau Sgiliau Sector. Mae pum ysgol academaidd UWIC yn gweithio gyda Chynghorau Sgiliau Sector i ddatblygu cyrsiau newydd i ddiwydiant, cyflawni prosiectau ymchwil neu ymgymryd â swyddi bwrdd.

4.2 Yn ddiweddar, sicrhaodd UWIC £250,000 o arian CCAUC i gydweithio ag Improve (y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer y diwydiant gweithgynhyrchu bwyd a diod), Prifysgol Morgannwg, Prifysgol Aberystwyth, Coleg Menai a Chanolfan Bwyd Cymru ar Brosiect Sgiliau'r Diwydiant Bwyd. Deilliodd y prosiect o waith ymchwil a gyflawnwyd gan Improve a amlygodd fod un o bob pum cyflogwr yn y sector yng Nghymru yn cael anhawster llenwi swyddi gwag ar gyfer gwyddonwyr bwyd. Dros y ddwy flynedd a hanner nesaf, bydd partneriaid prosiect yn datblygu cwrs Meistr newydd i droi graddedigion gwyddoniaeth yn wyddonwyr bwyd, ac yn datblygu amrywiaeth o gyrsiau byr a chynllun bwrsariaeth. Crëwyd Grwp Strategaeth Sgiliau Cymru newydd sy'n cynnwys cynrychiolwyr o ddiwydiant a darparwyr i ddatblygu mentrau newydd ar gyfer diwydiant gweithgynhyrchu bwyd Cymru sy'n werth £9 biliwn.

4.3 Mae llwyddiant UWIC yn y maes hwn yn amlwg o'r ffigurau ar gyfer cyfanswm y dyddiau dysgwyr o ran cyrsiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus a gyflwynwyd a gynyddodd o 6,550 yn 2005/6 i 8,053 yn 2006/7. Mae UWIC yn cynnig amrywiaeth eang o ddarpariaeth bwrpasol, achrededig a darpariaeth heb ei hachredu i ddiwydiant a'r proffesiynau. Sefydlwyd y Ganolfan Datblygiad Personol a Phroffesiynol yn ddiweddar mewn ymateb uniongyrchol i alwad gan CCAUC i Sefydliadau Addysg Uwch gynyddu'r graddau y

maent yn ymgysylltu â diwydiant a'r gymuned. Bydd y Ganolfan yn arwain y blaen o ran datblygu a gweinyddu gweithgareddau Datblygiad Proffesiynol Parhaus ac ehangu mynediad UWIC, gyda'r nod o gynyddu effaith economaidd, cymdeithasol a diwylliannol UWIC.

## 5.Sut mae UWIC yn defnyddio gwybodaeth

5.1 Mae'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Dylunio a Datblygu Cynnyrch (PDR) yn ganolfan ymchwil dylunio a datblygu cynnyrch amlddisgyblaethol sy'n cynnig gwasanaeth cyflawn i ddiwydiant o waith ymchwil a dadansoddi i ddylunio, llunio prototeipiau, gweithgynhyrchu a lansio. Mae PDR yn adnodd unigryw i Gymru gyda sail cleientiaid ryngwladol, sy'n cyfuno gwaith ymchwil arloesol a'r technolegau diweddaraf â phrofiad y diwydiant, dylunwyr, peirianyddion a thechnegwyr o'r radd flaenaf. Mae cyflawni dyluniadau yn gyflym er mwyn eu dilysu neu eu lansio yn elfennau hanfodol o'r broses o ddatblygu moduron. Caiff arbenigedd PDR yn y maes hwn ei ategu gan achrediad ISO 9001:2000 ac achrediad 'Canolfan Ragoriaeth'. Mae PDR wedi gweithio gyda mwy na 5,000 o gwmnïau ac wedi datblygu mwy na 450 o gynhyrchion, gan ddarparu atebion realistig, masnachol ac amserol ers sefydlu'r Ganolfan dros 10 mlynedd yn ôl, a dyfarnwyd gwobrau dylunio rhyngwladol clodwiw iddi yn ddiweddar. Bydd PDR yn dod â'r Gwobrau Rheoli Dylunio Ewropeaidd i Gaerdydd ym mis Hydref 2008.

5.2 Mae Dylunio Cymru yn cyflwyno rhaglen cymorth dylunio unigryw i fusnesau Cymru sy'n codi ymwybyddiaeth ac yn hwyluso'r defnydd o ddylunio. Caiff cymorth ei ddarparu drwy bedair lefel graidd o gymorth gan dîm o ddylunwyr profiadol sy'n gweithio fel cynghorwyr. Er mwyn cyrraedd y gynulleidfa ehangaf posibl, mae Dylunio Cymru yn cynnig pedair lefel o wasanaeth ar hyn o bryd: llinell ymholiadau; gweithdai rhanbarthol a elwir yn Brand Essentials - 40 y flwyddyn; rhaglen o ddigwyddiadau yn benodol i sector diwydiant - wyth y flwyddyn; a chyngor arbenigol un i un - 800 o ymweliadau â diwydiant y flwyddyn. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae Dylunio Cymru wedi ymgymryd â 4,700 o ymweliadau cynghori arbenigol â diwydiant ac wedi cynnal mwy na 60 o ddigwyddiadau a gweithdai. Yn 2007/08, denodd digwyddiadau seminar Dylunio Cymru fwy na 1,000 o bobl. Yn ogystal â chynorthwyo diwydiannau yng Nghymru, mae Dylunio Cymru yn ymgymryd â chymorth a gweithgareddau penodol ar gyfer y diwydiannau creadigol, y sector addysg ac mae'n arwain rhwydweithiau'r DU ac Ewrop ar raglenni cymorth dylunio. Yn 2004 a 2006, cynhaliodd Dylunio Cymru Weithdy Rhyngwladol ar Gymorth Dylunio a ddenodd 200 o bobl o bob cwr o'r byd.

5.3 Yn dilyn rhaglen barhaus o weithgarwch ecoddylunio sy'n deillio o Dylunio Cymru, sefydlwyd Canolfan Ecoddylunio Cymru (EDC) ym mis Medi 2006 fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau datblygu cynaliadwy. Mae EDC, sydd wedi'i lleoli yn UWIC a'i hariannu gan y rhaglen Gweithredu Deunyddiau, yn canolbwyntio ar feithrin gallu ac adnoddau yn y diwydiant, mewn sefydliadau sector cyhoeddus ac addysg uwch er mwyn hwyluso ecoddylunio effeithiol yng Nghymru. Ar hyn o bryd, prif amcan EDC yw gweithio'n agos gyda'r busnesau bach a chanolig yng Nghymru o'r sectorau â blaenoriaeth, electroneg ac offer trydanol, gweithgynhyrchu cyffredinol a bwyd a diod i alluogi ecoddylunio effeithiol. Drwy hyn, nod EDC yw mynd i'r afael â'r gwaith ymarferol o weithredu ecoddylunio tra'n mireinio offer a dulliau ar gyfer yr amgylchedd busnes yng Nghymru. Y gobaith yw y bydd hyn yn darparu llwyfan ar gyfer gweithredu ehangach yn y dyfodol. Mae EDC yn gweithio agos gyda phedwar cwmni a ddewiswyd o'r sectorau â blaenoriaeth i gynnwys ecoddylunio yn eu harferion gwaith. Caiff astudiaethau achos eu creu o'r canfyddiadau a'u defnyddio i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o gwmnïau a arweinir gan ecoddylunio.

5.4 Mae Canolfan Diwydiant Bwyd (FIC) UWIC yn darparu gwasanaeth ymgynghorol i'r diwydiant bwyd (yng Nghymru yn bennaf, ond nid yn unig) a thrwy wneud hynny, mae'n cefnogi economi Cymru ac yn helpu i sicrhau cyflogaeth lawn i fyfyrwyr is-raddedig ac ôl-raddedig. Mae FIC yn cefnogi'r diwydiant bwyd yng Nghymru drwy wasanaeth ymgynghorol yn bennaf ond hefyd drwy wneud gwaith ymchwil cysylltiedig. Cyfrannodd ei gweithgareddau o ran Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP) at sicrhau mai UWIC yw un o'r darparwyr KTP mwyaf yng Nghymru a'r darparwr mwyaf yn y DU o ran KTP sy'n gysylltiedig â bwyd. Mae gan FIC reolwr hyfforddiant penodedig hefyd, sy'n cynnal Dadansoddiadau Anghenion Hyfforddiant i gwmnïau sy'n gysylltiedig â gofynion deddfwriaeth, cyflawni hyfforddiant ac ymchwil i effeithiolrwydd hyfforddiant. Ymhlith y meysydd dan sylw mae diogelwch bwyd, hylendid, maetheg, alergenau bwyd ac archwilio bwyd. Yn ogystal, mae FIC yn cynnal ystod eang o brosiectau ar raddfa fach i helpu'r diwydiant, sy'n amrywio o ddatblygu cynnyrch newydd ac arloesedd o ran pecynnu i astudiaethau effeithlonrwydd economaidd. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r Ganolfan Diwydiant Bwyd wedi ymwneud yn fwy â Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran datblygu strategaethau i wella'r broses o ddatblygu cwmnïau prosesu bwyd yng Nghymru yn y tymor canolig/hirdymor. Mae'r Ganolfan hefyd yn darparu gwasanaeth dadansoddi diagnostig/bylchau a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r sector prosesu bwyd, sydd wedi cael effaith fawr ar drosiant ac elw yn y sector gyda phrosiectau mor amrywiol â dylunio ffatrïoedd, technoleg pobi a marchnata technegol yn cael eu cynnal. Mae'r effaith ariannol ar y sector yn amlwg o drosiant cynyddol y gellir ei fesur mewn miliynau. Mae Cyfarwyddwr y Ganolfan hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol i bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y maes bwyd amaeth, er enghraifft, mae'n aelod o'r Bwrdd Cynghori ar Strategaeth y Bartneriaeth Bwyd Amaeth a'r Grwp Rhanddeiliaid Allanol ar gyfer y Strategaeth Ffermio ar gyfer 2020. Mae'r Ganolfan Diwydiant Bwyd hefyd wedi cynnal dwy gynhadledd a ariannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (o dan faner Rhwydwaith Bwyd Cymru) sydd wedi denu prif siaradwyr megis cynrychiolwyr technegol o J Sainsbury, Tesco a Disney yn ogystal â'r Athro Huw Pennington, cadeirydd yr achos diweddar o E.Coli ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Eleni, bydd Bill Mahler, y cyfreithiwr Amddiffyn Bwyd gorau yn UDA yn bresennol yn ein cynhadledd, sydd fel arfer yn denu rhwng 70 a 120 o gynrychiolwyr o gwmnïau bwyd.

5.5 Mae argaeledd arian allanol hefyd yn ffactor pwysig sy'n sbarduno datblygiad gweithgareddau menter UWIC. Mae UWIC wedi llwyddo i roi cymorth uniongyrchol i ddatblygu economaidd a chymdeithasol drwy fentrau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth a phrosiectau dysgu gydol oes, a gefnogwyd gan gronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Dylid nodi nad yw UWIC wedi manteisio ar arian helaeth o dan Amcan Un, o gymharu â rhai Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru. Mae Ewrop yn cynnig ffynhonnell arall o arian allanol y mae UWIC yn bwriadu manteisio arni mewn modd mwy strategol, drwy arian Cydgyfeirio a'r Rhaglen Fframwaith. I'r perwyl hwn, gwnaed buddsoddiad mewnol i greu swydd Cyfarwyddwr Prosiectau Ewropeaidd, y bydd ei gylch gwaith yn ymwneud ag ysgogi a chydlynu ymgysylltiad UWIC â'r cyfleoedd dirifedi sydd ar gael. O ystyried diffyg profiad perthynol UWIC yn y maes hwn, rhagwelir y bydd y cyfeiriad strategol hwn yn arwain at ddull partneriaeth o ymgysylltu, gan atgyfnerthu ymrwymiad UWIC ymhellach i gydweithredu a

phartneriaethau a ysgogir yn academaidd.

5.6 Yn hanesyddol, mae Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP) wedi bod yn ffynhonnell bwysig o arian allanol i ategu gweithgareddau menter UWIC, gyda mwy na 60 o gwmnïau yn cael eu cefnogi dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae'r rhaglen KTP rhwng Ysgol Reoli Caerdydd a Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn enghraifft wych o effaith economaidd uniongyrchol UWIC ar Gymru. Gwelodd y bartneriaeth ddwy flynedd a hanner hon dîm o staff UWIC a myfyrwyr gradd Meistr mewn Gweinyddu Busnes yn gweithio gyda'r Maes Awyr ar nifer o faterion, yn arbennig datblygu llwybrau, lle y sefydlwyd wyth llwybr newydd, gan hwyluso mewnfuddsoddi a thwristiaeth. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o ffactorau allanol wedi arwain at leihad yn nifer y rhaglenni KTP a sefydlir, gan orfodi UWIC i ystyried ffynonellau arian a dulliau amgen o gydweithio â diwydiant. Er enghraifft, caiff cynigion ar gyfer rhaglen beilot, yn seiliedig ar fodel KTP ac a gynlluniwyd i ddiwallu anghenion y sector bwyd yng Nghymru, eu hystyried ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Os caiff ei chymeradwyo, bydd y rhaglen hon yn ategu'r broses o gyflwyno nifer o raglenni trosglwyddo gwybodaeth newydd gyda busnesau yng Nghymru mewn sector allweddol. Bydd UWIC yn ceisio atgyfnerthu ein safle dros y blynyddoedd sydd i ddod fel un o'r sefydliadau AU gorau yng Nghymru o ran KTP.

5.7 Fel ail elfen o'r system gymorth ddeuol, mae arian KEF hefyd yn chwarae rhan o ran cefnogi gweithgareddau menter UWIC. Mae UWIC yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni newid diwylliannol o ran menter ac entrepreneuriaeth a gwella ei pherfformiad o ran cymhwyso gwybodaeth a masnacheiddio syniadau yn llwyddiannus. Mae UWIC hefyd yn ymrwymedig i entrepreneuriaeth, o ran myfyrwyr a staff, a bydd yn parhau i ddefnyddio arian KEF i gefnogi Ysgolheigion Entrepreneuriaeth penodol a'r broses o brif ffrydio addysg entrepreneuriaeth yn y cwricwlwm. Er enghraifft, defnyddiwyd arian KEF yn ddiweddar i ddatblygu clwb menter i staff a myfyrwyr, sydd â'r nod o ddarparu ffocws ac adnoddau i'r sawl sy'n dymuno sefydlu eu busnes eu hunain. Mae 320 o aelodau yn perthyn i'r clwb hwn bellach (staff a myfyrwyr). Mae UWIC yn awyddus i gefnogi menter ac entrepreneuriaeth drwy'r cwricwlwm, gyda modiwlau entrepreneuriaeth mewn Datblygu Busnes (Lefel 2) a Phrosiectau Menter (Lefel 3) ar gael i fyfyrwyr is-raddedig. Mae nifer y myfyrwyr sy'n dilyn y cyrsiau wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda mwy na 160 o fyfyrwyr yn cwblhau modiwlau.

5.8 Mae ein heffaith gymdeithasol yr un mor bwysig, yn bennaf ym maes iechyd a lles. Parhawn i drin cannoedd o gleifion bob blwyddyn yn yr unig glinig podiatreg yng Nghymru sy'n hygyrch i'r cyhoedd, annog cannoedd o blant i wella eu ffitrwydd yn ein Rhaglen flynyddol Gwersylloedd ac Academïau'r Ddraig, ac annog pobl anabl i gymryd rhan mewn chwaraeon drwy gyfleusterau penodol. Mae staff UWIC yn gweithio'n agos gyda'r cyfryngau a grwpiau cymunedol lleol i barhau i hysbysu'r cyhoedd o faterion yn ymwneud â hybu iechyd, a defnyddir ein cyfleusterau chwaraeon modern gan grwpiau cymunedol lleol ac athletwyr o fri drwy gydol y flwyddyn. Mae gweithgarwch Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd, yn arbennig, yn sicrhau bod gan UWIC rôl amlwg i'w chwarae wrth ddatblygu diwylliant cyfoes y rhanbarth. Mae'r effaith hon yn amrywio o'r gwaith proffil uchel o drefnu Wythnos Ddylunio Caerdydd, sy'n ddigwyddiad blynyddol a chydweithio â Chanolfan Mileniwm Cymru, i agor Oriel Gerddi Howard i'r cyhoedd; gan ddarparu mynediad am ddim i arddangosfeydd gan fyfyrwyr ac artistiaid a dylunwyr cyfoes pwysig eraill. Mae rhaglen Ysgol Gelf Agored Caerdydd yn parhau i fod yn llwybr mynediad poblogaidd i bobl leol â diddordeb mewn celf a dylunio ond nad ydynt yn meddu ar y profiad neu'r cymwysterau angenrheidiol i ddilyn rhaglen ffurfiol. Bydd buddsoddiad cynlluniedig yng nghampws Gerddi Howard yn sicrhau bod yr Ysgol yn y sefyllfa orau i ymgysylltu â chynlluniau Cyngor Caerdydd ar gyfer y Diwydiannau Creadigol ac yn ymestyn ei rôl gymunedol ac economaidd ymhellach.

5.9 Mae Canolfan Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd UWIC yn helpu busnesau a sefydliadau gyda'u hanghenion o ran iechyd, diogelwch a'r amgylchedd, ac yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o fusnesau bach a chanolig, cwmnïau mawr, awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol. Ymhlith y gwaith a wnaed i fusnesau yng Nghymru mae asesiadau iechyd a diogelwch, strategaethau monitro, hyfforddiant a gwasanaeth ymgynghorol a bodloni gofynion deddfwriaethol a rheoli. Ymhlith y meysydd arbenigedd penodol mae Asesiadau Swn, Asesiadau Risg, Asesiadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd a Systemau Rheoli Amgylcheddol (ISO 14001, EMAS).

---------------------------------------------------